Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Llysiau'r Fets, Owen Griffiths

# Adroddiad Blynyddol Datblygu Cynaliadwy 2015/16 a Chynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2016/17

a luniwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Ebrill 2016

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd ei Darllen ac awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn bolisi cyfle cyfartal.

## Cyflwyniad a chyd-destun

Mae edrych ar ôl yr amgylchedd yn hanfodol i barhad y ddynol ryw. Ond effeithir ar yr amgylchedd mewn modd hollol sylfaenol gan ymarferion diwylliannol cymunedau. Felly credwn fod deialog rhwng yr asiantaethau amgylcheddol a diwylliannol yn hanfodol a bod yn rhaid i ni gyda'n gilydd sicrhau i'r ddwy ochr gael eu cynnwys yn fwy mewn trafodaethau a strategaethau datblygu cenedlaethol.

Yn Ebrill *'2015 daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Llywodraeth <http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=10103>Cymru i rym.* Nod y ddeddfwriaeth yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a chryfhau trefniadau llywodraethu yn y sector cyhoeddus. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau, wrth wneud penderfyniadau, eu bod yn cymryd i ystyriaeth yr effaith y gallent eu cael ar bobl Cymru (a gweddill y byd) yn y dyfodol.

Gesyd y ddeddfwriaeth ddyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus Cymru - mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn un ohonynt - i fabwysiadu datblygu cynaliadwy'n egwyddor drefnu ganolog i'r broses benderfynu ar bopeth sy'n ymwneud â'r sefydliad.  Rhaid inni hefyd ddarparu tystiolaeth ar sut y gweithredwn hyn yn ymarferol i Gomisiynydd Datblygu Cynaliadwy Cymru.

Noda'r ddeddfwriaeth 7 amcan allweddol i wella llesiant Cymru:

1. Cymru Ffyniannus
2. Cymru Wydn
3. Cymru Iachach
4. Cymru Fwy Cyfartal
5. Cymru y Cymunedau Cydlynus
6. Cymru lle mae Diwylliant yn Fywiog a'r Gymraeg yn Ffynnu
7. Cymru â Chyfrifoldeb Byd-eang

Amlinella'r Ddeddf bum peth y bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus eu hystyried i brofi eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy.  Dyma hwy:

1. yn yr hirdymor - edrych ymlaen er mwyn rhagweld canlyniad ac effaith gweithredoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
2. atal - ceisio gwneud llai o niwed ac atal problemau
3. integreiddio - dod o hyd i well ffyrdd o integreiddio gwasanaethau a datblygiadau i fwyafu eu heffaith
4. cydweithio – gweithio gyda'n gilydd i fwyafu adnoddau a chyflawni rhagor.
5. ymwneud – gan dynnu i mewn y derbynwyr y gweithredoedd yng nghamau cynllunio'r gweithredoedd hynny gan sicrhau y clywir eu llais ac y gwrandewir arno.

Drwy ddilyn y 5 Ffordd hon o Weithio, gallwn gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â sawl her a wynebwn yn yr hirdymor.




Ffynhonnell - Llywodraeth Cymru:
Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol - Canllawiau statudol am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Digwydd y ddarpariaeth drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynlluniau llesiant lleol i bob awdurdod lleol er mwyn gwella llesiant pobl a chymunedau. Disgwylir i gyrff cyhoeddus gyfrannu at y rhain.

Bydd pob corff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf yn dechrau adrodd yn statudol ar ddangosyddion llesiant o Ebrill 2017 ymlaen.

## Grŵp Monitro Datblygu Cynaliadwy

Sefydlodd Cyngor Celfyddydau Cymru Grŵp Monitro Datblygu Cynaliadwy yn 2013. Dan gadeiryddiaeth Melanie Hawthorne, aelod o'r Cyngor, swyddogaeth y grŵp oedd sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn barod ar gyfer cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac ymgymryd ag arweinyddiaeth wrth hyrwyddo pwysigrwydd yr holl agenda Datblygu Cynaliadwy yn ein gwaith. Diffiniwyd y swyddogaeth yn nhermau'r cylch gorchwyl fel a ganlyn:

1. cwmpasu'r galw sydd mewn deddfwriaeth newydd a chyfredol ac yng nghyfarwyddebau'r Llywodraeth i greu strategaeth Datblygu Cynaliadwy i Gyngor Celfyddydau Cymru a chreu map ar gyfer ei gweithredu drwy waith a gwasanaethau craidd y Cyngor.

2. datblygu arweinyddiaeth ynghylch egwyddorion datblygu cynaliadwy drwy gydol y Cyngor a'r staff a thrwy ein partneriaethau gan gynnwys Portffolio Celfyddydol Cymru.

3. newid agweddau tuag at ddatblygu cynaliadwy fel y caiff ei ystyried yn elfen allweddol yn hytrach na rhywbeth ychwanegol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

4. cyfrannu at fonitro cydymffurfio Cyngor Celfyddydau Cymru â'r holl ofynion datblygu cynaliadwy statudol a rheoleiddio sy'n berthnasol a'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol sy'n gysylltiedig.

5. goruchwylio datblygu, gweithredu a monitro prosiectau datblygu cynaliadwy penodol. Mae'n cynnwys monitro darparu ein cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy a chyfrannu at ein proses asesu effaith ar gydraddoldeb.

### Ein dyletswyddau cyfreithiol

Nid oes arnom angen cydymffurfio'n gyfreithiol tan Ebrill 2017 ac felly buom yn cydymffurfio'n wirfoddol â'r Ddeddf a pharhau â'r broses o addasu ac adnewyddu ein polisïau a'n gweithdrefnau i adlewyrchu gofynion y ddeddfwriaeth.

### Ein cyflawniadau hyd yn hyn

Seiliwyd ein dogfen strategaeth gelfyddydol allweddol, '*Ysbrydoli*' ar egwyddorion Datblygu Cynaliadwy. Disgrifia'r ddogfen hon y fframwaith polisi i'n holl waith.

Un o'r tasgau mwyaf a wnaeth y Cyngor eleni oedd ein Hadolygiad Buddsoddi. Yn yr Adolygiad craffasom ar waith yr holl sefydliadau a ariannwn yn flynyddol i sicrhau eu bod yn addas i'w pwrpas ac yn perfformio'n dda o ran 'Ysbrydoli'. Roedd egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wrth wraidd y ffordd yr ymgymerasom â'r adolygiad hwnnw.

Ymgynghorasom yn gyhoeddus ar ein dogfen strategaeth a gweithdrefnau a phrosesau'r Adolygiad Buddsoddi a chawsom lawer o sylwadau cadarnhaol am y ffaith ein bod yn proffilio agenda Datblygu Cynaliadwy yn y ddogfen polisi a strategaeth arweiniol hon.

Cynlluniwyd y ffurflen gais ar gyfer ein Hadolygiad Buddsoddi i gynnwys cwestiynau am yr agweddau cymdeithasol, economaidd, artistig ac amgylcheddol ar y cynigion. Rhoes yr adroddiadau asesu werthusiad o'r ystyriaethau hyn ar sail y ceisiadau unigol gan ganiatáu i'r Cyngor benderfynu'n wybodus ar greu Portffolio Celfyddydol newydd i Gymru a oedd yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Cyflwynasant adran Datblygu Cynaliadwy ym mhob un o ddogfennau'r Cyngor a'r Uwch Tîm Rheoli fel bod egwyddorion datblygu cynaliadwy'n glir wrth benderfynu ar faterion ac yn cael eu hystyried ar ddechrau datblygu strategol a chynllunio. Dechrau da felly ond rydym yn ymwybodol bod angen ailddiffinio a datblygu'r gwaith fel y symudwn ymlaen.

Sefydlasom Bolisi Amgylcheddol uchelgeisiol ac rydym yn falch o ennill Achrediad y Ddraig Werdd, Lefel 5, am ein hymdrechion. Mae parchu adnoddau'r Ddaear a defnyddio dim ond ein cyfran deg yn bwysig i'n staff ac o'u gwirfodd y gwnaethant gynnydd aruthrol i leihau ein defnydd o adnoddau drwy dechnoleg, cludiant cyhoeddus ac ailgylchu.

Gwnaed llofnodi Siarter Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru/Cynnal Cymru yn y 12 mis nesaf yn amod yn ein cytundeb ariannu i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru. Llofnododd Cyngor Celfyddydau Cymru y Siarter hefyd.

Mae'n bwysig nodi'r twf a fu yn nifer y llofnodwyr o'r sector celfyddydol. Yn 2013/14 dim ond pum llofnodwr ydoedd o'r sector celfyddydol a diwylliannol sef Gŵyl y Gelli, Amgueddfa Cymru, Sherman Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru a Chanolfan y Celfyddydau, Chapter. Yn awr (Chwefror 2016) mae 37 llofnod o'r sector celfyddydol. Cais plaen gan Gyngor Celfyddydau Cymru am sefydliadau celfyddydol a gaiff arian cyhoeddus i lofnodi'r Siarter yw'r rheswm am y cynnydd hwn yn 2015/16.

Cynnal Cymru (Adroddiad Blynyddol Siarter Datblygu Cynaliadwy 2015/16)

Cefnogasom rwydwaith Arweinyddiaeth Amgylcheddol a'r arfer orau ar gyfer y sector lleoliadau yng Nghymru drwy Greu Cymru.

Cefnogasom raglen Datblygu Arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy a ddatblygwyd gan Lucid a Chanolfan Ymchwil Budd y Cyhoedd drwy'r Loteri ar gyfer rheolwyr sy'n codi i frig y sector celfyddydol.

Cydweithiasom ag Eginiad i fapio'r celfyddydau a phrosiectau Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru. Cyhoeddwyd y cyhoeddiad diweddaraf, **Culture Shifters** ym Mawrth.

Buom yn gweithio gydag aelodau o'n portffolio i rannu'r arfer gorau a dysgu cydweithwyr o ran materion amgylcheddol.  Er enghraifft, ymgyfranogodd Canolfan Mileniwm Cymru, a enillodd Wobr y Frenhines am Ragoriaeth am ei chyflawniadau amgylcheddol, o sesiynau rhannu hyfforddiant a sgiliau gyda sefydliadau celfyddydol eraill.

Cynaliasom ddwy sesiwn hyfforddi mewn cysylltiad â Chynnal Cymru ar gyfer ein portffolio a sefydliadau celfyddydol ac artistiaid unigol eraill – un yng Nghaerdydd ac un yn Llandudno.

Datblygasom raglen ymchwilio a datblygu digidol i greu atebion seiliedig ar dechnoleg i faterion megis cynhwysiant, hygyrchedd a'r Gymraeg.

Cyfarfu Cyngor Celfyddydau Cymru a chyrff sector diwylliannol eraill â'r Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy i ddechrau'r sgwrs am sut y gallwn gyfrannu at yr amcanion Llesiant a datblygu'r 5 Ffordd o Weithio o ran gweithio gyda'n gilydd ac yn unigol.

Rhoddwyd sesiwn friffio ar Ddatblygu Cynaliadwy i'n Pwyllgor Archwilio a Pherygl.


Mewn diwrnod hyfforddi i'r holl staff roedd sesiwn friffio ar Ddatblygu Cynaliadwy a'i swyddogaeth wrth arwain gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru.

> Cymru (diwylliant creadigol lle mae llawer o artistiaid) yw un o ddim ond dair democratiaeth sy'n fodlon eu dal eu hunain yn atebol am hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd… Heb artistiaid, sut y gallwn ar wyneb y ddaear ddechrau ymgyrraedd at gymuned gynaliadwy neu greu cysylltiadau a fydd yn ein cynnal drwy adegau anodd?
>
> Margaret Wheatley (Awdur academaidd arweiniol ar Arweinyddiaeth)

## Ystadegau Allweddol - Ffigyrau ôl troed carbon ar gyfer dwy flynedd ariannol:

| | 2014/15 | 2015/16 | |
|---|---|---|---|
| Name | Units | Units | Movement |
| Electricity | 29,086 | 24,911 | -4,175 |
| Rail | 29,578 | 35,503 | 5,925 |
| Air | 66,306 | 6,033 | -60,273 |
| Bus | 328 | 925 | 597 |
| Taxi | 752 | 492 | -260 |
| Car | 22,010 | 26,139 | 4,129 |

| | 2014/15 | 2015/16 | |
|---|---|---|---|
| Name | Journeys | Journeys | Movement |
| Car hire | 3 | 6 | 3 |
| Rail | 198 | 199 | 1 |
| Air | 18 | 6 | -12 |
| Bus | 69 | 83 | 14 |
| Taxi | 145 | 202 | 57 |




***Awyren - roedd y newid mawr yn chwarter 3 yn 2014/15 oherwydd teithiau a wnaed gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru ar deithiau byr a hir i Sbaen, Montréal a Mwmbai yn 2014*

| Blwyddyn ariannol 2015/16 | Chwarter 1 | | | Chwarter 2 | | | Chwarter 3 | | | Chwarter 4 | | | Cyfanswm ar gyfer diwedd y flwyddyn 2015/16 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cost (£) | Unedau | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Unedau | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Unedau | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Unedau | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Unedau | $CO_2$ (tunelli metrig) |
| **Trydan** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Trydan (anadnewyddadwy) | 3,085 | 25,092 | 12.56 | 3,058 | 24862 | 12.44 | 3592.16 | 24911 | 12.46 | | | | 9,735 | 74,865 | 37.46 |
| | Cost (£) | Milltiroedd | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Milltiroedd | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Milltiroedd | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Milltiroedd | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Milltiroedd | $CO_2$ (tunelli metrig) |
| **Allyriadau teithio (tunelli metrig o $CO_2$)** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Trên | 5,946 | 22,962 | 1.67 | 5,695 | 23,622 | 1.71 | 8,175 | 35,503 | 2.57 | | | | 19,816 | 82,087 | 5.95 |
| Awyren | 512 | 3,783 | 1.01 | 8,859 | 113,848 | 28.58 | 942 | 6,033 | 1.85 | | | | 10,313 | 123,664 | 31.44 |
| Bws | 93.39 | 51 | 0.01 | 404 | 868 | 0.14 | 300 | 925 | 0.15 | | | | 798 | 1,844 | 0.3 |
| Tacsi | 1,072 | 391 | 0.11 | 1,405 | 452 | 0.13 | 1,886 | 492 | 0.01 | | | | 4,363 | 1,335 | 0.254 |
| Car | 6,604 | 14,582 | 4.68 | 6,146 | 12,874 | 4.61 | 11,935 | 26,139 | 8.14 | | | | 24,686 | 53,595 | 17.43 |

| | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 3 |
|---|---|---|---|
| Trydan | 12.56 | 12.44 | 12.46 |
| Teithio | 7.48 | 35.17 | 12.72 |
| | 20.04 | 47.61 | 25.18 |

| | Chwarter 1 | | | Chwarter 2 | | | Chwarter 3 | | | Chwarter 3 | | | Cyfanswm ar gyfer diwedd y flwyddyn 2014/15 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn ariannol 2014/15** | Cost (£) | Unedau | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Unedau | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Unedau | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Unedau | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Unedau | $CO_2$ (tunelli metrig) |
| **Trydan** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Trydan (anadnewydd dadwy) | 3,173 | 26,147 | 14.05 | 3,177 | 26011 | 13.98 | 3535.06 | 29086 | 15.64 | 3505.47 | 29128.5 | 15.66 | 13,390 | 110,373 | 59.33 |
| | Cost (£) | Milltiroedd | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Milltiroedd | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Milltiroedd | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Milltiroedd | $CO_2$ (tunelli metrig) | Cost (£) | Milltiroedd | $CO_2$ (tunelli metrig) |
| **Allyriadau teithio (tunelli metrig o$CO_2$)** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Trên | 4,265 | 19,312 | 1.46 | 7,475 | 27,754 | 2.12 | 8,394 | 29,578 | 2.26 | 10,298 | 37,186 | 2.84 | 30,432 | 113,830 | 8.68 |
| Awyren | 2,750 | 28,442 | 7.66 | 3,031 | 16,625 | 5.18 | 4,072 | 66,306 | 16.48 | 9,938 | 95,128 | 24.19 | 19,792 | 206,501 | 53.51 |
| Bws | 234 | 561 | 0.09 | 217 | 307 | 0.05 | 260 | 328 | 0.05 | 451 | 1,089 | 0.18 | 1,162 | 2,285 | 0.37 |
| Tacsi | 1,124 | 375 | 0.11 | 1,197 | 410 | 0.12 | 2,217 | 752 | 0.21 | 2,749 | 888 | 0.25 | 7,286 | 2425 | 0.69 |
| Car | 10,931 | 23,606 | 7.8 | 10,521 | 23,163 | 7.24 | 10,315 | 22,010 | 7.36 | 9,741 | 21,073 | 6.83 | 41,508 | 89,852 | 29.23 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Trydan | 14.05 | 13.98 | 15.64 |
| Teithio | 17.12 | 14.71 | 26.36 |
| | 31.17 | 28.69 | 42 |

## Ystadegau Siarter Datblygu Cynaliadwy

| Sefydliadau Celfyddydol a lofnododd y Siarter Datblygu Cynaliadwy | Sefydliadau'r Portffolio Celfyddydol a lofnododd y Siarter Datblygu Cynaliadwy | Sefydliadau a fynychodd ddigwyddiad hyfforddi/dysgu |
|---|---|---|
| 37 | 22 | Y cyfan |

# Dangosyddion Cymdeithasol

## Arolygon Omnibws

| Mynychu a chymryd rhan: | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| Canran oedolion Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 76.3 | 75.1 | 79.8 | 78.6 |
| Canran plant/pobl ifainc Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 79.5 | 85.4 | 85.9 | 88.7 |
| Canran oedolion Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 40.2 | 34.9 | 40.1 | 41.2 |
| Canran plant/pobl ifainc Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 80.2 | 84.3 | 82.3 | 88.5 |
| | | | | |
| Safle cymdeithasol: | | | | |
| Canran oedolion ABC1 Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 84.4 | 83.7 | 87.6 | 84.8 |
| Canran oedolion C2DE Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 69.6 | 68.8 | 74.2 | 74.6 |
| Canran plant/pobl ifainc ABC1 Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 82.4 | 88.5 | 88.9 | 90.5 |
| Canran plant/pobl ifainc C2DE Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 76.6 | 82.4 | 83.4 | 87 |
| Canran oedolion ABC1 Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 49.5 | 43.2 | 48.4 | 45.8 |
| Canran oedolion C2DE Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 32.3 | 28.8 | 34.1 | 38.3 |
| Canran plant/pobl ifainc ABC1 Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 83.3 | 86.5 | 83.2 | 89.8 |
| Canran plant/pobl ifainc C2DE Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 77.1 | 82.1 | 81.5 | 87.3 |

| Rhywedd: | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| Canran dynion Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 72.6 | 74 | 79.1 | 76.7 |
| Canran menywod Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 79.7 | 76.1 | 80.5 | 80.5 |
| Canran bechgyn/pobl ifainc gwrywaidd Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 77.3 | 83.4 | 84.3 | 86 |
| Canran merched/pobl ifainc benywaidd Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 82.2 | 87.7 | 87.7 | 91.6 |
| Canran dynion Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 37.1 | 31.9 | 40.3 | 37.6 |
| Canran menywod Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 43.1 | 37.8 | 40 | 44.6 |
| Canran bechgyn/pobl ifainc gwrywaidd Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 78.5 | 83.2 | 80.8 | 89.3 |
| Canran merched/pobl ifainc benywaidd Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 81.9 | 85.6 | 83.9 | 87.8 |
| | | | | |
| Y Gymraeg: | | | | |
| Canran oedolion Cymraeg Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 79 | 82.6 | 81 | 80.7 |
| Canran oedolion di-Gymraeg Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 75 | 72.3 | 79.5 | 77.9 |
| Canran plant/pobl ifainc Cymraeg Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 84.9 | 89.1 | 90.6 | 88.4 |
| Canran plant/pobl ifainc ddi-Gymraeg Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 76 | 83.1 | 83 | 88.9 |
| Canran oedolion Cymraeg Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 46 | 44.2 | 47.2 | 48.9 |
| Canran oedolion di-Gymraeg Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 38 | 31.4 | 38.2 | 38.1 |
| Canran plant/pobl ifainc Cymraeg Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 87.4 | 88.4 | 83.4 | 90.3 |
| Canran plant/pobl ifainc di-Gymraeg Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 75.6 | 81.7 | 79.7 | 87.4 |

## Portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw

| Nodweddion gwarchodedig: | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|
| **Digwyddiadau sy'n targedu:** | Nifer | Nifer |
| Pobl anabl | 433 | 794 |
| Grwpiau duon ac ethnig | 251 | 632 |
| Plant a phobl ifainc | 1,519 | 3,400 |
| Pobl hŷn (dros 50 oed) | 844 | 428 |
| Lesbiaid, hoywon neu ddeurywolion | 184 | 219 |
| Menywod beichiog a mamau newydd | 64 | 395 |
| Pobl grefyddol neu at ddibenion crefyddol arall | 56 | 59 |
| Pobl drawsrywiol a aeth (neu'n mynd) drwy'r broses o ailbennu eu rhywedd | 71 | 88 |
| Cyfanswm y digwyddiadau targedol | **3,422** | **6,015** |
| | | |
| **Sesiynau ymgyfranogol sy'n targedu:** | Nifer | Nifer |
| Pobl anabl | 7,554 | 8,422 |
| Grwpiau duon ac ethnig | 224 | 295 |
| Lesbiaid, hoywon neu ddeurywolion | 75 | 171 |
| Pobl hŷn (dros 50 oed) | 1,084 | 1,203 |
| Menywod beichiog a mamau newydd | 193 | 49 |
| Pobl grefyddol neu at ddibenion crefyddol arall | 58 | 2 |
| Pobl drawsrywiol a aeth (neu'n mynd) drwy'r broses o ailbennu eu rhywedd | 0 | 148 |
| | **9,188** | **10,290** |

| Cyflogaeth ym Mhortffolio'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gweithwyr anabl | 88 | 72 | 65 |
| Cyfanswm y gweithwyr duon ac ethnig | 101 | 122 | 163 |
| Cyfanswm y lesbiaid, hoywon a deurywolion | 61 | 71 | 113 |
| Cyfanswm y bobl hŷn | 519 | 539 | 602 |
| Cyfanswm y bobl grefyddol | 30 | 59 | 70 |
| Cyfanswm y menywod beichiog neu ar gyfnod mamolaeth | 51 | 43 | 36 |
| Cyfanswm y bobl drawsrywiol | 0 | * | 0 |

*cuddir y gell i gadw cyfrinachedd

| Byrddau rheoli ym mhortffolio'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y bobl anabl ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol | 14 | 28 | 25 |
| Cyfanswm y bobl dduon ac ethnig ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol | 10 | 6 | 11 |
| Cyfanswm y lesbiaid, hoywon neu ddeurywolion ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol | 15 | 22 | 34 |
| Cyfanswm y bobl hŷn (dros 50 oed) ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol | 346 | 307 | 386 |
| Cyfanswm y bobl grefyddol ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol | 2 | 27 | 31 |
| Cyfanswm y menywod sy'n feichiog neu sydd ar gyfnod mamolaeth ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol | * | 0 | 5 |
| Cyfanswm y bobl drawsrywiol ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol | 0 | 0 | * |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweithgarwch y sefydliadau sy'n cael arian refeniw gyda dalgylchoedd Cymunedau'n Gyntaf | | | | |
| | | | | |
| Gweithgarwch Noson Allan | | | | 2015/16 |
| Nifer y digwyddiadau | | | | 102 |
| Cyfanswm y tocynnau a werthwyd | | | | 5158 |
| | | | | |
| Arian y Loteri i brosiectau sy'n digwydd mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf* | | | | 2015/16 |
| Nifer y prosiectau a ariennir | | | | 359 |
| Cyfanswm a ariennir | | | | £9,087,509 |
| *Mewn rhai achosion nid yw'r prosiectau sy'n digwydd yn gyfyngedig i ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Ond mae ganddynt elfen o'r prosiect sy'n digwydd yn yr ardaloedd hynny. | | | | |

## Dangosyddion amgylcheddol

| Cyngor Celfyddydau Cymru | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Safle tirlenwi - amcangyfrif | 2.2 | 1.65 | 0.12 |
| Ailddefnyddio/ailgylchu - amcangyfrif | 7.45 | 6.44 | 3.25 |
| Allyriadau nwy tŷ gwydr (tunelli metrig o $CO_2$) | 61 | 61 | 59 |
| Defnyddio ynni (awr gilowat) | 126,708 | 125,644 | 110,373 |
| | | | |
| Allyriadau teithio (tunelli metrig o $CO_2$) | | | |
| Trên | 12 | 8 | 9 |
| Awyren | 64 | 64 | 54 |
| Ceir/faniau | 35 | 25 | 29 |
| | | | |
| Teithio (milltiroedd) | | | |
| Trên | 154,806 | 102,761 | 113,832 |
| Awyren | 221,803 | 224,369 | 206,500 |
| Ceir/faniau | 86,789 | 104,924 | 89,851 |

## Dangosyddion economaidd

| Cyflogaeth | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm gweithwyr Cyngor Celfyddydau Cymru | | | | | |
| Cyfanswm gweithwyr y portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw (gan gynnwys gwirfoddolwyr) | | | | 4,935 | 5,445 |
| Cyfanswm gweithwyr y portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw (ac eithrio gwirfoddolwyr) | | | | 3,704 | 4,135 |
| | | | | | |
| Cyfanswm cyflogaeth yn y sector celfyddydol (ac eithrio pobl hunangyflogedig) | | | | | |
| 9001 : Y celfyddydau perfformio | | 1,000 | 1,300 | 1,200 | 1,100 |
| 9002 : Gweithgareddau cefnogi'r celfyddydau perfformio | | 100 | 100 | 100 | 100 |
| 9003 : Creu'n artistig | | 500 | 500 | 400 | 400 |
| 9004 : Gweithredu cyfleusterau celfyddydol | | 700 | 900 | 1,200 | 1,100 |
| Cyfanswm cyflogaeth yn y sector celfyddydol - Cymru | | **2,300** | **2,800** | **2,900** | **2,700** |
| | | | | | |
| **Buddsoddi yn y celfyddydau** | | | | | |
| Arian refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru | | | 28,385,880 | 28,128,713 | 27,733,493 |
| | | | | | |
| **Incwm** | | | | | |
| Trosiant blynyddol portffolio'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw (£) | | | 112,230,958 | 111,436,220 | 100,919,928 |
| Incwm a enillir portffolio'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw (£) | | | 50,357,348 | 48,834,025 | 21,779,675 |
| | | | | | |
| **Gwerth gros a ychwanegir** | | | | | |
| Cyfraniad at economi diwydiant y celfyddydau, adloniant a hamdden (£ miliwn) | 512 | 589 | 647 | 740 | 750 |
| Canran holl ddiwydiant Cymru | 1.1 | 1.2 | 1.3 | 1.4 | 1.4 |

| Buddsoddi | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymchwil, datblygu ac arloesedd | | | | | |
| | | | | | |
| Cyfleoedd hyfforddiant a dysgu | | | | | |
| Nifer yr hyfforddeion ym mhortffolio'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw | | | | 72 | 61 |
| | | | | | |
| Nifer y sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd gan bortffolio'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw | | | | 4,163 | 4,189 |
| Nifer y mynychiadau mewn sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd gan bortffolio'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw | | | | 14,431 | 23,955 |
| | | | | | |
| Arian a ddyrannwyd ar gyfer hyfforddiant - sefydliadau | | | | 2014/15 | 2015/16 |
| Nifer y ceisiadau llwyddiannus | | | | 28 | 19 |
| Cyfanswm a ariannwyd | | | | £588,832 | £378,028 |
| | | | | | |
| Arian a ddyrannwyd ar gyfer hyfforddi - pobl greadigol broffesiynol (datblygu proffesiynol) | | | | 2014/15 | 2015/16 |
| Nifer y ceisiadau llwyddiannus | | | | 10 | 28 |
| Cyfanswm a ariannwyd | | | | £25,208 | £60,776 |
| | | | | | |
| Gweithgarwch y portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw | | | | | |
| Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd gan bortffolio'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw | | | 16,513 | 16,964 | 21,747 |
| Mynychiadau i ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan y portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw | | | 4,219,400 | 3,081,319 | 3,952,302 |

## Cenedlaethau'r Dyfodol: Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2016/17

Nid oes raid cydymffurfio'n gyfreithiol tan Ebrill 2017 pan gytunir ar y dangosyddion cenedlaethol ac felly ymgymerwn â chynllun blwyddyn ar gyfer 2016/17 sy'n ategu ein cylch cynllunio corfforaethol newydd sy'n dechrau yn 2017/8.

### 1. Creu'r amgylchedd i'r celfyddydau ffynnu.

**Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**

Rydym am i'n hartistiaid a'n sefydliadau gorau allu creu eu gwaith gorau a'u cynnal eu hunain drwy safon eu gweithgareddau. Bydd blaenoriaethau yn canolbwyntio ar y Portffolio newydd i Gelfyddydau Cymru 2016/17 sy'n cefnogi'r artist unigol, gwyliau a digwyddiadau mawrion sy'n codi'n sylweddol broffil y celfyddydau.

Yn fwy cyffredinol, adolygwyd ein gwybodaeth a'n canllawiau ariannu i hyrwyddo'n ehangach y cyfleoedd ariannu a gynigiwn.

*Rydym yn ymrwymedig i'r mesurau hyn i annog a chefnogi artistiaid a sefydliadau.*

| Cam gweithredu | Mesur | Tîm arweiniol |
|---|---|---|
| 1. Coladu gwybodaeth am sut y gweithreda aelodau o'r portffolio mewn hinsawdd ariannol heriol yn sail dystiolaeth i gynllunio at y dyfodol. | – Addasu adroddiadau diweddu i ddal y data economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n feintiol ac ansoddol. | Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu/Menter ac Adfywio |
| 2. Buddsoddi arian cyfalaf y Loteri i wella prif leoliadau celfyddydol a diwylliannol Cymru a'u gwneud yn fwy cynaliadwy a gwydn a hyrwyddo lleihad yn eu hôl troed carbon. | – Cyflawni Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau ar gyfer unrhyw adeiladu o'r newydd<br><br>– Sgorio'n uchel yn amgylcheddol ar gyfer offer newydd<br><br>– Cynllun cyfalaf newydd sy'n benodol ar gyfer | Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu<br><br>Pwyllgor Cyfalaf |

| | | |
|---|---|---|
| | sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru i ymgymryd â gwelliannau amgylcheddol, er enghraifft, goleuadau deuodau allyrru golau. | |

## 2. Cynyddu gwerth gweithio'n rhyngwladol yn y celfyddydau – yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol ac yn economaidd.

**Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**

Rydym am alluogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol sy'n arwain yng Nghymru i wireddu eu huchelgais rhyngwladol drwy ehangu eu gorwelion, annog eu posibiliadau a chysylltu â phartneriaid sy'n ysbrydoli ac â chyfleoedd mewn marchnadoedd newydd. Mewn byd sy'n gweithredu'n gynyddol ar lefel ryngddibynnol a chysylltiedig, rydym am i gelfyddydau Cymru allu gweithredu'n effeithiol ym marchnad y byd.

Serch hynny, gwyddom y gall profi a gwerthfawrogi traddodiadau diwylliannol sy'n dod o bedwar ban y byd gynyddu ein dealltwriaeth o amrywiaeth diwylliannol. Felly rydym yn annog artistiaid a chynulleidfaoedd i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol.

*Rydym am sicrhau bod y gwaith hwn yn digwydd mewn ffordd mor gynaliadwy â phosibl yn enwedig parthed teithio'n rhyngwladol.*

| Cam gweithredu | Mesur | Tîm arweiniol |
|---|---|---|
| 3. Cynyddu cyfleoedd am weithio'n rhyngwladol – yn enwedig ar themâu ac egwyddorion cynaliadwyedd a gwytnwch. | – Cefnogi prosiectau cyfnewid rhyngwladol drwy ein Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol<br><br>– Annog a hyrwyddo gwaddol datblygu cynaliadwy menter Cymru yn Fenis 2017. | Celfyddydau Rhyngwladol Cymru/Menter ac Adfywio<br><br>Datblygu'r Celfyddydau |

| 3. Dod o hyd i gyfleoedd, ffyrdd a lleoedd newydd er mwyn i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau | | |
|---|---|---|
| **Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**<br><br>Rydym am annog cynifer o bobl â phosibl yng Nghymru i fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. Ond nid yw'n fater yn unig o amddiffyn a chadw'r hyn sy'n bodoli eisoes. Hoffem i'r gweithgareddau celfyddydol yr ydym yn eu hariannu gyrraedd croestoriad ehangach o boblogaeth Cymru – mewn ffyrdd newydd ac mewn lleoedd newydd - i bobl a wynebodd yn y gorffennol rwystrau i fynychu'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. | | |
| Cam gweithredu | Mesur | Tîm arweiniol |
| 4. Prosiectau Creu Cymunedau Cyfoes yn datblygu perthynas gyda phartneriaid sy'n cyrraedd gwahanol gynulleidfaoedd. | – Prosiectau Creu Cymunedau Cyfoes yn dangos cynnydd ymgysylltu mewn grwpiau a dangynrychiolir. | Menter ac Adfywio |
| 5. Datblygu deunyddiau eiriolaeth i ddangos sut y gall y celfyddydau gyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn enwedig y 7 amcan llesiant a'r 5 ffordd o weithio. | – Deunyddiau ar gael i'w rhannu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. | Menter ac Adfywio/ Cyfathrebu |

## 4. Datblygu creadigrwydd plant a phobl ifainc

**Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**

Rydym am gael rhagor o blant a phobl ifainc ledled Cymru i ymwneud yn weithredol â gweithgarwch creadigol o safon. Bid a fo am yr amgylchiadau y mae'r plant a'r bobl ifainc yn eu hwynebu, hoffwn i'n holl bobl ifainc gael y cyfle i ddatblygu eu talentau (gan gynnwys hyd at lefel estynedig o gyrhaeddiad).

*Mae Creawdwyr Ifainc* - ein strategaeth i ddatblygu'r celfyddydau a phobl ifainc - yn ein hymrwymo i sicrhau bod cyfleoedd i ymgysylltu â'r celfyddydau ar gael i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Mae gan blant a phobl ifainc wahanol sgiliau, gwahanol alluoedd a gwahanol anghenion. Yn ein holl raglenni byddwn yn sicrhau bod pob un o'r anghenion a'r galluoedd hyn yn cael eu diwallu.

Blaenoriaeth allweddol fydd cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddarparu menter Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

| Cam gweithredu | Mesur | Tîm arweiniol |
|---|---|---|
| 6. Datblygu, gweithredu a chefnogi camau gweithredu a ddatblygir i fynd i'r afael â materion a themâu Datblygu Cynaliadwy. | – Mae'r allbynnau ansoddol a meintiol Rhaglen Arweinyddiaeth Ddiwylliannol yn cyfrannu at ein hamcan llesiant corfforaethol. | Ymgysylltu ac Ymgyfranogi |

## 5. Annog arloesedd, gwytnwch a chynaliadwyedd

**Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**

Rydym am ddarparu strategaeth i gelfyddydau Cymru sy'n annog arloesedd ac entrepreneuriaeth a ffyrdd newydd o weithio a datblygu ymarfer.

Serch hynny, mae ein diffiniad o gynaliadwyedd yn un eang ac mae'n cynnwys yr agweddau ar les amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Nodwedd allweddol o hyn, yn ôl y tebyg, fyddai'r graddau y mae sefydliadau celfyddydol wedi'u hymsefydlu yn eu cymunedau lleol, gan hybu gweithgarwch sy'n ymgysylltu ag unigolion a'u cyrraedd ar draws rhychwant eang y gymdeithas.

| Cam gweithredu | Mesur | Tîm arweiniol |
|---|---|---|
| 7. Cefnogi Portffolio Celfyddydol Cymru i weithredu a bod yn hollol gydymffurfiol â deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. | – Asesu'r ystod a'r cwmpas o'r cydymffurfedd cyfredol drwy adolygu<br>– Mecanwaith cefnogi ar waith i barhau i ddatblygu cyfraniad sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru at lesiant Cymru. | Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu/ Datblygu'r Celfyddydau/ Menter ac Adfywio |
| 8. Monitro Cam 2 o'r rhaglen Creu Cymunedau Cyfoes o brosiectau – i sicrhau bod y celfyddydau'n cael eu hymgorffori yn yr adfywiad a arweinir gan ddiwylliant yn ein bröydd. | – Monitro 7 prosiect o ran eu cynnydd yn ôl nodau ac amcanion y rhaglen. | Menter ac Adfywio |
| 9. Gweithio gyda swyddfa'r Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy i sefydlu swyddogaeth i'r sector celfyddydol mewn cynllunio strategol. | – Ymwneud â sector y celfyddydau wrth ddatblygu Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus<br>– Cymryd rhan mewn trafodaethau sector trawsddiwylliannol. | Menter ac Adfywio |

## 6. Amddiffyn a thyfu'r arian ar gyfer celfyddydau Cymru

**Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**

Mae celfyddydau Cymru yn cael eu cynnal gan ystod o wahanol sefydliadau sy'n cyfrannu arian, adnoddau ac arbenigedd. Serch hynny, mae pwysau ar ariannu (yn enwedig yn y sector cyhoeddus) gyda'n hawdurdodau lleol yn enwedig yn wynebu anawsterau cynyddol wrth gynnal eu lefelau presennol o ariannu hyd yn oed. Ein blaenoriaeth yn ystod 2016/17 fydd ymgyrch eiriolaeth a fydd â'r nod o amddiffyn buddsoddiad yr awdurdod lleol yn y celfyddydau.

Mae bod yn gynaliadwy yn golygu bod yn berthnasol ac ystyrlon i'ch bro a/neu'ch cymuned fuddiant. Gweithiwn gyda'r sefydliadau a ariannwn a'n partneriaid i sicrhau bod y sefydliadau a'r prosiectau mor gynaliadwy â phosibl.

Mae data a thystiolaeth yn ein galluogi i fonitro pa mor effeithiol yr ydym yn gweithio. Un flaenoriaeth yn ystod 2016/17 fydd gwella ein sail dystiolaeth.

| Cam gweithredu | Mesur | Tîm arweiniol |
|---|---|---|
| 10. Gwella safon ein data meintiol ac ansoddol am effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol o ran sut y dyrennir ein harian. | – Cytuno ar fetrigau i ddal data<br><br>– Dal, dadansoddi a defnyddio data'n sail dystiolaeth sy'n porthi gwaith datblygu yn y dyfodol. | Ymchwil /Datblygu Cynaliadwy: Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol<br><br>Ymchwil |

## 7. Arddangos gwerth y celfyddydau

**Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**

Rydym am hyrwyddo'r olwg gadarnhaol ac ymgysylltiol ar gelfyddydau Cymru gan sicrhau bod y sector celfyddydol a'r cyhoedd ehangach yng Nghymru yn deall beth y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ceisio ei gyflawni o ran deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

| Cam gweithredu | Mesur | Tîm arweiniol |
|---|---|---|
| 11. Defnyddio ein safle arweiniol, a ninnau'n ariannwr a chorff cyhoeddus yng Nghymru, i hyrwyddo dealltwriaeth o faterion newid yn yr hinsawdd a swyddogaeth y celfyddydau wrth greu Cymru decach. | – Cyfleoedd i arddangos ein hymrwymiad drwy ddigwyddiadau a seminarau<br><br>– Tystiolaeth o arweinyddiaeth dda. | Datblygu Cynaliadwy: Cenedlaethau'r Dyfodol Grŵp Monitro/Cyfathrebu/ Menter ac Adfywio/Uwch Tîm Rheoli |
| 12. Annog a hyrwyddo trafodaeth am y swyddogaeth y gall y celfyddydau ei chwarae wrth hyrwyddo egwyddorion datblygu cynaliadwy. | – Cynnwys themâu Cenedlaethau'r Dyfodol a datblygu cynaliadwy yn un o'r digwyddiadau Sgwrs yn ystod 2016/17<br><br>– Mae sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru yn cynyddu nifer y digwyddiadau gyda thema amgylcheddol. | Cyfathrebu/ Datblygu'r Celfyddydau/ Portffolio Celfyddydol Cymru a derbynwyr arian y Loteri |
| 13. Sicrhau y cyhoeddwn wybodaeth a'i chysylltu i gefnogi deunyddiau drwy'n gwefan. | – Creu tudalen Datblygu Cynaliadwy ar ein gwefan gyda diweddariadau rheolaidd a dolenni i ffynonellau defnyddiol o wybodaeth a chefnogaeth<br><br>– Defnydd eang o'r cyfryngau cymdeithasol. | Cyfathrebu |

## 8. Gwneud Cyngor y Celfyddydau yn gorff cyhoeddus effeithlon ac effeithiol

**Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn un o'r cyrff cyhoeddus y disgwylir iddo gydymffurfio â deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol a aeth yn gyfraith gwlad yn Ebrill 2016.

Mae gan natur drosfwaol canlyniadau Datblygu Cynaliadwy yr eiriolir drostynt yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol y posibiliadau i newid popeth. Rydym yn ymwybodol mai ysbryd yr oes yw herio paradeimau ac esblygu modelau gwahanol a mwy cynaliadwy o ran gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd. Mae'n newid hirdymor a bydd yn rhaid i bawb gychwyn ar siwrnai ar y cyd lle gallwn rannu'r cyfrifoldeb am ddiffinio a darparu'r dyfodol hwn. Bydd yn rhaid inni ymdrechu i ddatblygu ein gwaith i ddiwallu'r 7 amcan Llesiant sydd yn y ddeddfwriaeth. Rhaid hefyd ymgorffori'r 5 ffordd o weithio wrth wraidd ein sefydliad sydd mewn sawl ffordd yn bwysicach os ydym i effeithio ar sut mae'n sefydliad yn gweithio.

| Cam gweithredu | Mesur | Tîm arweiniol |
|---|---|---|
| 14. Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru ddealltwriaeth glir o'i ymrwymiadau dan ddeddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. | – Gallwn ddarparu tystiolaeth y diwallwn bob ymrwymiad adrodd statudol dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol o Ebrill 2016 ymlaen<br><br>– Datblygu a darparu pecyn hyfforddi a chyfathrebu i bob aelod o'r staff i ymgorffori cysyniadau am feddwl yn gynaliadwy ar gyfer cynlluniau 2017/18<br><br>– Lledaenu'r Gwerthoedd Sefydliadol a ddatblygwyd gan Grŵp Arolwg y Staff<br><br>– Cryfhau'r cysylltiadau rhwng y Grŵp Monitro'r Gymraeg a'r Grŵp Monitro Cydraddoldebau i sicrhau meddwl cydlynus a chysylltiedig. | Datblygu Cynaliadwy: Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol/<br>Uwch Tîm Rheoli/y Cyngor/<br>Grŵp Arolwg y Staff/<br>Adnoddau Dynol/<br>Grŵp Monitro Cydraddoldebau/Grŵp Monitro'r Gymraeg |

| | | |
|---|---|---|
| 15. Gall dogfennau corfforaethol, polisïau, gweithdrefnau a phrosiectau Cyngor Celfyddydau Cymru ddangos tystiolaeth o'u heffaith gadarnhaol o ran themâu, amcanion a dyheadau Datblygu Cynaliadwy. | – Mae cynllunio corfforaethol yn y cyfnod 2017-20 yn seiliedig ar y 7 Amcan Llesiant a'r 5 Ffordd o Weithio yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol<br>– Cynhyrchu a chyhoeddi Adroddiad Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2015/16<br>– Adnewyddu ein polisi Datblygu Cynaliadwy cyfredol yng ngoleuni'r cynnydd a wneir hyd yn hyn ac effaith Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. | Grŵp Monitro Datblygu Cynaliadwy<br><br>Uwch Tîm Rheoli<br><br>Y Cyngor |
| 16. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau yn deg, cyfiawn a thryloyw ac yn cydymffurfio â Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. | – Cadarnhau bod y cyflenwyr/contractwyr yn gymwys. | Gwasanaethau Corfforaethol. |

# Datblygu Cynaliadwy

## Beth a wnawn ni'n hunain?

- Sicrhau bod Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei ymgorffori yn ein fframwaith cynllunio corfforaethol ac ar bob lefel o'n gwaith.
- Polisi Amgylcheddol
- Adnewyddu ein fframwaith polisi

## Sut y dylanwadwn ar yr hyn a wna'r bobl yr ydym yn eu hariannu?

- Sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru
- Amodau Safonol Grant
- Cymorth a chefnogaeth
- Rhaglenni ariannu
- Hwyluso hyfforddiant a rhannu gwybodaeth

## Beth y gallwn ei wneud i godi ymwybyddiaeth yn gyffredinol?

- Partneriaethau a chydweithio
- Ymuno â rhwydweithiau
- Bod yn rhagweithredol yn y sector
- Creu a hwyluso cyfleoedd i ymgysylltu â sawl her a chyfle